## Y Grawys

**Darllen Mathew 4: 5–7**

Edrychwn yn awr ar yr ail brofiad a gafodd Iesu yn yr anialwch. Y tro hwn, mae'r profwr yn newid ei ddull. Yn ôl yr hanes yn Efengyl Luc, dyma'r trydydd tro i Iesu gael ei brofi; ond mae Mathew yn ei roi yn ail yn ei efengyl ef. Wrth i Iesu hel meddyliau, mae'r profwr yn mynd ag ef a'i osod ar dŵr uchaf y deml gan ddweud wrtho, 'Os mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr; oherwydd y mae'n ysgrifenedig: "Rhydd orchymyn i'w angylion amdanat; byddant yn dy godi ar eu dwylo rhag iti daro dy droed yn erbyn carreg."' (Mathew 4:6).

Mae'n rhaid troi i dudalennau'r Hen Destament i ddechrau. Onid oedd y proffwyd Malachi wedi rhagweld, 'Wele fi'n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o'm blaen; ac yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i'w deml' (Malachi 3:1)? Ac oni chawn addewid yn Llyfr y Salmau, 'Oherwydd rhydd orchymyn i'w angylion i'th gadw yn dy holl ffyrdd; byddant yn dy godi ar eu dwylo rhag iti daro dy droed yn erbyn carreg' (Salm 91:11–12)? Pam na ddylai Iesu, felly, ei fwrw ei hun i lawr? Adeiladwyd y deml yn Jerwsalem ar gopa mynydd Seion, oedd wedi ei lefelu'n llwyfandir, ac ar y llwyfan hwn y codwyd adeiladau'r deml. Ar un gongl, roedd Porth Solomon a'r Porth Brenhinol yn cydgyfarfod; ac yno'r oedd disgynfa serth i lawr i ddyffryn Cedron. Ar ben to'r deml, pan fyddai llewyrch o oleuni blaen y wawr yn ddyddiol yn torri dros fryniau Hebron byddai offeiriad yn sefyll i ganu ei gorn. Arwydd oedd hwn fod awr aberth y bore wedi torri. Gyda'r cefndir hwn byddai llam Iesu o binacl y deml wedi bod yn olygfa i ryfeddu ati. Pam y gwrthododd Iesu ag ymateb i gais y profwr?

Un rheswm, mae'n debyg, yw bod unrhyw un sydd am ddenu pobl â gweithredoedd o ryfeddod a chyffro yn gorfod gwneud rhyfeddodau cyson bob gafael. Cafodd plentyn wahoddiad i barti pen-blwydd ei ffrind gorau ac fe aeth yno'n ddigon anfoddog. Pan ddaeth adref gyda'r nos, a'i rieni'n holi am hynt a helynt y dydd, ei ateb oedd, 'Roedd y parti ei hun yn iawn ond roeddwn i wedi gweld y consuriwr o'r blaen, a'r un hen driciau oedd ganddo. Doedd ganddo ddim byd newydd, cyffrous.' Mae'n debyg fod rhyfeddodau consuriwr bellach yn weithredoedd cyffredin, bob dydd. Roedd y cyffro wedi mynd ohonynt.

Yng ngwaith y deyrnas, mae gofyn i ni gymryd risg a bod yn fwy mentrus, ond nid er mwyn ein dangos ein hunain a dweud pa mor eofn a beiddgar ydyn ni. Mae'r ffydd sy'n ddibynnol ar arwyddion a rhyfeddodau yn fyrhoedlog a di-werth. Efallai mai amheuaeth sydd yma a'n bod yn chwilio am brawf, a hynny yn y lleoedd anghywir. Gwrthododd Iesu wneud sioe ohono'i hun er mwyn denu dilynwyr. 'Paid â gosod yr Arglwydd dy Dduw ar ei brawf' oedd ateb Iesu i'r profwr gan ddyfynnu o lyfr Deuteronomium (6:12). Yr hyn y mae Iesu'n ei ddweud yw – peidiwch â cheisio gweld pa mor bell y gellwch fynd efo Duw; does dim gwerth mewn rhoi eich hunain mewn sefyllfaoedd bygythiol ac yna gofyn i Dduw eich arbed a'ch cynnal.

**Myfyrdod pellach:**
Oes yna berygl i ni geisio creu cyffro a rhyfeddod yn ein haddoliad?
Beth am sylw un o'r dorf, 'Os Mab Duw wyt ti … disgyn oddi ar y groes'? A gafodd Iesu ei brofi bryd hynny?

***Huw John Hughes***